# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 02 Chwefror 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**John Marek (Wrecsam)** Yn dilyn ei ateb i WAQ45405 18 Ionawr 2006, a wnaiff y Prif Weinidog restru'r lleoliadau lle cedwir gwybodaeth yngl•n ag ymrwymiadau Swyddogol Gweinidogion a wneir gan Aelodau Cynulliad nad ydynt yn rhan o'r Llywodraeth. (WAQ45647)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wario ar gyflogau ymgynghorwyr a chynghorwyr ym mhob blwyddyn er 1999, ac a wnaiff y Prif Weinidog ddadansoddi'r rhifau hyn yn ôl adran. (WAQ45691)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wario ar gyflogau gweision sifil ym mhob blwyddyn er 1999, ac a wnaiff y Prif Weinidog ddadansoddi'r rhifau hyn yn ôl adran. (WAQ45692)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wario ar luniaeth ym mhob blwyddyn er 1999, ac a wnaiff y Prif Weinidog ddadansoddi'r rhifau hyn yn ôl adran. (WAQ45693)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pwy oedd y rhanddeiliaid a oedd yn bresennol yn y cyfarfod brys a gynhaliwyd gyda Chymdeithasau Can•io Cymru a Phrydain ar Ragfyr 13 2005 yngl•n â chynnal y pencampwriaethau d•r gwyllt yng Nghanolfan Tryweryn. (WAQ45648)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ryddhau cyllid ar gyfer cefnogi chwaraeon ieuenctid i baratoi ar gyfer Gemau Olympaidd 2012. (WAQ45694)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyllid a ryddhawyd i gefnogi chwaraeon ieuenctid cyn Gemau Olympaidd 2012. (WAQ45695)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Pa ffigurau sydd ym meddiant Llywodraeth

Cynulliad Cymru yngl•n â nifer y bobl a laddwyd mewn damweiniau traffig ar y ffordd a achoswyd yn rhannol neu'n gyfangwbl gan a) anifeiliaid domestig, megis anifeiliaid anwes b) anifeiliaid fferm c) adar/ffesantod a fagwyd i'w saethu. (WAQ45637)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru, ar gyfer ardal pob awdurdod lleol, pob prosiect sy'n derbyn arian Ewropeaidd, ac a wnaiff ef nodi faint o arian o roddwyd i bob prosiect gan (i) arian Ewropeaidd, (ii) llywodraeth leol, (iii) arian y Cynulliad, (iv) arian preifat, (v) ffynonellau eraill. (WAQ45649)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa ddangosyddion a ddefnyddiwyd i fesur llwyddiant neu effeithiolrwydd y defnydd y mae awdurdodau lleol yn ei wneud o arian Ewropeaidd. (WAQ45650)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drefniadau gweithredu cyfrifoldebau cyfredol y WDA dros ddatblygu ardaloedd a chynllunio gofodol yn dilyn ei integreiddio i Lywodraeth y Cynulliad. (WAQ45664)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei bolisïau ar gyfer datblygu economaidd yn y Canolbarth a'r Gorllewin. (WAQ45665)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i chwalu'r rhwystrau sy'n cadw menywod â phlant oed ysgol yng Nghymru rhag ymuno â'r farchnad lafur. (WAQ45666)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i annog pobl i deithio ar y trên. (WAQ45667)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i wneud gorsafoedd trên yn llefydd mwy diogel. (WAQ45668)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu egwyddorion sylfaenol ei bolisïau trafnidiaeth. (WAQ45669)

**Karen Sinclair (De Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am arian Ewropeaidd yn y Gogledd. (WAQ45670)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfranogiad Llywodraeth y Cynulliad Cymru yn yr Uwch Gynhadledd Fusnes gyntaf yn 2012. (WAQ45671)

**Carl Sargeant (Alyn a Glannau Dyfrdwy):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gefnogi'r diwydiant ffilm yng Nghymru. (WAQ45672)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r gweinidog wedi eu cael gyda Norwich Union yngl•n â gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddenu swyddi sy'n gofyn am sgiliau uchel i'r datblygiad gwerth miliynau o bunnoedd sydd ar y gweill i sefydlu swyddfeydd ym Mae Caerdydd. (WAQ45673)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Ganolfan Technium sydd i'w chodi yng Nghaerdydd yn fuan. (WAQ45674)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau diogelwch teithwyr mewn gorsafoedd rheilffordd. (WAQ45675)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffigurau cyflogaeth yng Nghymru. (WAQ45676)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am anweithgarwch economaidd yng Nghymru. (WAQ45677)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod sector busnes Cymru yn elwa o ddigwyddiadau chwaraeon. (WAQ45678)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adfywio economaidd yn y De Ddwyrain. (WAQ45679)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl dan 25 oed sy'n economaidd anweithgar ym mhob etholaeth yng Nghymru ac ym mhob blwyddyn er 1999. (WAQ45696)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Systemau Ynni Adnewyddadwy. (WAQ45697)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael yngl•n â grantiau i gwmnïau ar gyfer adeiladu ffermydd gwynt ac a wnaiff ef ddatganiad am hynny. (WAQ45698)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gefnogi cadw hawliau eiddo deallusol yng Nghymru. (WAQ45708)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa gynnydd a wnaed gyda'r adduned deg uchaf i ddatblygu cynllun a fyddai'n caniatáu i bob person ifanc rhwng 16 a 18 oed yng Nghymru deithio ar fysiau am hanner pris. (WAQ45707)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru, ar gyfer ardal pob awdurdod lleol, y prosiectau hynny a sefydlwyd gan awdurdodau lleol i gefnogi mentrau busnes. (WAQ45706)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Faint o grantiau y mae'r Llywodraeth wedi eu rhoi ar gyfer magu ffesantod fel rhan o arallgyfeirio ffermydd yn y blynyddoedd 2000-2004 (WAQ45638)

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Faint o gwynion y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi eu derbyn yngl•n ag effaith magu a rhyddhau ffesantod ar gyfer eu saethu ar fwynderau preswyl. (WAQ45639)

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Pa ffigurau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad am nifer y ffermydd a ddechreuodd gynnig saethu ffesantod fel rhan o'u busnesau yng Nghymru yn y blynyddoedd 2000-2004 (WAQ45640)

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Faint o gwynion y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi eu derbyn yngl•n ag effaith magu a rhyddhau ffesantod ar gyfer eu saethu ar yr amgylchedd. (WAQ45641)

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Pa arweiniad a roddir gan Lywodraeth y Cynulliad yngl•n â statws cynllunio unedau magu ffesantod yng nghefn gwlad. (WAQ45642)

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Pa ffigurau/ystadegau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad am nifer y ffesantod a fagwyd ar gyfer eu saethu yn y blynyddoedd 2000-2004 (WAQ45643)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa feini prawf sydd angen eu cyflawni gan Awdurdod Lleol sy'n ymgeisio am arian i amddiffyn yr arfordir gan Is-Adran Llywodraeth y Cynulliad dros amddiffyn yr arfordir a gwarchod rhag llifogydd. (WAQ45644)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r gweinidog wedi ystyried defnyddio Mentrau Cyllid Preifat i helpu i ariannu amddiffyn yr arfordir yng Nghymru, mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ45645)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa feini prawf sydd angen eu cyflawni gan Awdurdod Lleol sy'n ymgeisio am arian i amddiffyn yr arfordir gan Is-Adran Llywodraeth y Cynulliad dros amddiffyn yr arfordir a gwarchod rhag llifogydd. (WAQ45646)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian a ddyrannwyd i Barc Cenedlaethol Eryri ym mhob blwyddyn er 1999. (WAQ45699)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian a ddyrannwyd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym mhob blwyddyn er 1999. (WAQ45700)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian a ddyrannwyd i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro ym mhob blwyddyn er 1999. (WAQ45701)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi ei rhoi i gyflwyno prisiau gostyngol mewn meysydd parcio a redir gan gynghorau i bawb sydd o oedran derbyn pensiwn ledled Cymru.  (WAQ45660)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganllawiau NICE ar gyfer rhoi Clopidogrel ar bresgripsiwn yn dilyn digwyddiadau cardiofasgwlaidd. (WAQ45651)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yngl•n â faint o gyllid ychwanegol a delir i bob un o ymddiriedolaethau'r GIG i ariannu'r Agenda ar gyfer Newid. (WAQ45652)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yngl•n â'r gost a gaiff pob un o ymddiriedolaethau'r GIG o ganlyniad i ariannu rhoi'r Agenda ar gyfer Newid ar waith. (WAQ45653)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yngl•n â faint o gyllid y mae angen ei dalu o adnoddau ymddiriedolaeth GIG i ariannu rhoi'r Agenda ar gyfer Newid ar waith. (WAQ45654)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi

manylion yngl•n â'r cynnydd a roddir i bob BILl i ariannu'r cynnydd yng nghostau cyffuriau, ar gyfer bob blwyddyn ers sefydlu BILlau. (WAQ45655)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y wardiau, fesul Ymddiriedolaeth GIG ac ysbyty, na chânt eu defnyddio. (WAQ45656)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yngl•n â faint o gyllid ychwanegol a delir i bob un o Ymddiriedolaethau'r GIG i ariannu'r Contract Ymgynghorwyr. (WAQ45657)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yngl•n â faint o gyllid y mae angen ei dalu o adnoddau Ymddiriedolaeth GIG i ariannu'r Contract Ymgynghorwyr. (WAQ45658)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yngl•n â faint o gyllid y mae angen ei dalu o adnoddau Ymddiriedolaeth GIG i ariannu rhoi'r Contract Ymgynghorwyr ar waith. (WAQ45659)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A fyddai'r Gweinidog yn egluro pam bod rheolwyr a gweinyddwyr yn cael eu recriwtio i'r GIG ar gyfradd sydd dros dair gwaith yn fwy na chyfradd recriwtio nyrsys a bydwragedd. (WAQ45702)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ44081, pryd fydd ffigurau 2004/05 ar gael. (WAQ45703)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Tai Hafan ynghylch eu cyllid yn y dyfodol. (WAQ45661)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Grantiau Refeniw Cefnogi Pobl. (WAQ45662)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi'r setliad ar gyfer Grantiau Cefnogi Pobl yn 2006-07. (WAQ45663)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd gyda pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru. (WAQ45680)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd gyda pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â

chamddefnyddio alcohol yng Nghymru. (WAQ45681)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael ynghylch effaith anallu’r Asiantaeth Cynnal Plant i gasglu cynhaliaeth gan rieni absennol ar dlodi ymhlith plant. (WAQ45682)

**Carl Sargeant (Alyn a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i amddiffyn henoed agored i niwed rhag byrgleriaeth. (WAQ45683)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**): A wnaiff y Prif Weinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei thrafodaethau gyda Gweinidog Llywodraeth y DU yngl•n ag ad-drefnu’r Heddlu yng Nghymru. (WAQ45684)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion llywodraeth y DU yngl•n â goblygiadau gordaliadau Credyd Treth Teulu i deuluoedd sydd ag incwm isel. (WAQ45685)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau cadarnhaol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â chamdriniaeth rywiol yng Nghymru. (WAQ45686)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am droseddau treisgar yng nghymunedau De Cymru. (WAQ45687)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**: Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gyda chynrychiolwyr awdurdodau tân Cymru yn dilyn y ffrwydrad ym mhurfa olew Buncefield. (WAQ45688)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yngl•n â dyfodol swyddfeydd post yng Nghymru. (WAQ45689)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Swyddfeydd Post yn y dyfodol. (WAQ45690)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi eu cael ynghylch lefelau’r hapchwarae cysylltiedig â’r rhyngrwyd yng Nghymru. (WAQ45704)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A fyddai'r Gweinidog yn rhoi datganiad am hapchwarae cysylltiedig â’r rhyngrwyd yng Nghymru. (WAQ45705)